BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

At: Aelodau o'r Senedd
Copi at: Yr holl staff cymorth

14 Hydref 2021

Annwyl Aelodau,

**CRYNODEB O'R CYFARFOD BWRDD A GYNHALIWYD AR 30 MEDI 2021**

Cyfarfu Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ddydd Iau 30 Medi. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd, adolygiad y Bwrdd o gymorth mewn perthynas â COVID-19, a Strategaeth y Bwrdd ar gyfer gweddill ei gyfnod yn y swydd.

Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd ynghyd â **chrynodebau o gyfarfodydd blaenorol**.

## 1. Ymgysylltu â'r Aelodau a staff cymorth

Fel Bwrdd, rydym wedi ymrwymo i raglen ymgysylltu ag Aelodau o'r Senedd a'ch staff cymorth.

Fel rhan o hyn, mae dau **Grŵp Cynrychiolwyr** ar waith: un yn cynrychioli Aelodau a'r llall yn cynrychioli eich staff cymorth. Mae manylion am aelodaeth y Grwpiau ar gyfer y Chweched Senedd i'w gweld yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Mae cyfarfodydd y Grŵp Cynrychiolwyr yn rhoi cyfle i ddod â materion o bwys i'n sylw, er mwyn ein galluogi i ddeall yn well y materion rydych chi a'ch staff yn eu hwynebu. Maent hefyd yn rhoi cyfle i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a'ch staff–a gofyn am eich mewnbwn–ar ein gwaith. Cyfarfu aelodau'r bwrdd â'r Grwpiau Cynrychiolwyr ddydd Mercher 29 Medi. Rydym yn ddiolchgar am y cyfraniadau pwysig a wnaed, a gafodd eu bwydo i'n cyfarfod ffurfiol ar 30 Medi ac a fydd yn llywio ein rhaglen waith yn y dyfodol.

Yn unol â'n hymrwymiad blaenorol i drefnu **sesiynau galw heibio bob tymor ar gyfer Aelodau**, byddwn yn gwneud trefniadau i'n sesiynau galw heibio nesaf gael eu cynnal ar 24 Tachwedd 2021, 14:00 – 16:30. Yn amodol ar ganllawiau iechyd cyhoeddus ac asesiadau risg perthnasol, ein bwriad yw cynnal y cyfarfodydd hyn yn y Senedd – edrychwn ymlaen at gyfarfod â chi bryd hynny.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.wales
0300 200 6565

Yn ystod y Senedd hon rydym hefyd yn trefnu **rhaglen tymor hwy o gyfarfodydd ac ymweliadau â'r canlynol**:

- **cyn-Aelodau**, i gasglu eu hadborth ar effeithiolrwydd y gefnogaeth a ddarperir gan y Penderfyniad yn ystod eu cyfnod yn y swydd, a'r cyfnod yn union yn dilyn yr etholiad;
- **Aelodau a staff sydd newydd eu hethol ac sydd wedi'u dychwelyd**, i edrych ar yr eich myfyrdodau ynghylch eich profiadau hyd yma a'ch barn ar i ba raddau y mae'r gefnogaeth a ddarperir yn eich galluogi i gyflawni'ch dyletswyddau yn effeithiol wrth ddarparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

## 2. Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Gwnaethom ystyried ystod o faterion yn ymwneud â Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn ein cyfarfod ar 30 Medi:

### *2.1 Unioni McCloud a Sargeant*

Yn ystod haf 2021, gwnaethom ymgynghori[1] ar gynigion i wneud newidiadau i Reolau Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd ("y Cynllun"). Gwnaed y cynigion hyn yn sgil effaith dyfarniad McCloud a Sargeant y Goruchaf Lys, a ddyfarnodd fod rhai darpariaethau cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, a oedd yn trin aelodau iau yn llai ffafriol ar sail oedran, yn achos o wahaniaethu.

Daeth ein hymgynghoriad i ben ar 6 Medi 2021 ac ni chyflwynwyd unrhyw wrthwynebiadau i'n cynigion. Gwnaethom ystyried yr holl ymatebion a'n cynigion yn ein cyfarfod ar 30 Medi 2021 a chytunwyd i:

- gynnig dewis ar unwaith i aelodau o'r Cynllun yr effeithir arnynt a ydynt am ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol neu aros yn yr adran Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi'u Hailbrisio (CARE) ar gyfer cyfnod yr anghydraddoldeb; a
- chynnig cyfraniad o hyd at £150 tuag at gost cyngor ariannol annibynnol ar y mater hwn.

Fel Bwrdd, mae'n ofynnol i ni gael cymeradwyaeth Trysorlys EM i ddiwygio'r Rheolau'r Cynllun cyn y gellir mabwysiadu'r cynigion. Rydym mewn cysylltiad â Thrysorlys EM ar hyn o bryd. Unwaith y byddwn yn cael cymeradwyaeth gan Drysorlys EM, bydd aelodau o'r Cynllun yr effeithir arnynt yn cael llythyr gan Bennaeth Pensiynau'r Senedd, yn cadarnhau beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw. Bydd y llythyr hwn yn gofyn i'r aelod o'r Cynllun yr effeithir arno ystyried y wybodaeth a ddarparwyd a nodi a yw'n dymuno dychwelyd i adran

[1] Ymgynghorodd y Bwrdd â Chomisiwn y Senedd (fel y corff sy'n gyfrifol am weinyddu'r Cynllun) ac aelodau o'r Cynllun yr effeithiwyd arnynt (h.y. y rhai a oedd mewn gwasanaeth gweithredol ar 1 Ebrill 2012; y rhai a oedd o dan 55 oed ar 1 Ebrill 2012; a'r rhai a oedd mewn gwasanaeth gweithredol ar 6 Mai 2016).

Cyflog Terfynol y Cynllun neu aros yn yr adran CARE am y cyfnod pan oedd yr anghydraddoldeb yn bodoli.

### *2.2 Enwebu partner*

Mae Rheolau'r Cynllun yn nodi ar hyn o bryd, pan fo aelod yn ddi-briod, os yw'n cyd-fyw â phartner ac am i'w bartner fod yn gymwys i gael pensiwn dibynnydd os bydd yr aelod yn marw, mae angen i'r aelod fod wedi enwebu ei bartner yn ysgrifenedig o leiaf chwe mis cyn marwolaeth yr aelod.

Mae llawer o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus y DU yn cynnwys, neu wedi cynnwys, gofyniad am ffurflen enwebu. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys (Brewster), mae cyngor cyfreithiol wedi cadarnhau bod hyn yn achos o wahaniaethu, gan nad yw'n ofynnol i aelodau priod y Cynllun enwebu priod er mwyn i bensiwn priod fod yn daladwy.

Yng ngoleuni'r uchod, yn ein cyfarfod ar 30 Medi, cytunwyd y dylid diwygio Rheolau'r Cynllun i ddileu'r gofyniad am ffurflen enwebu sydd wedi'i gynnwys yn y diffiniad o "partner".

### *2.3 Materion eraill y cynllun pensiwn*

Yn ystod ein cyfarfod ar 30 Medi gwnaethom hefyd:

- gytuno ar y rhagdybiaethau demograffig ar gyfer y prisiad y terfyn uchaf ar gostau[2] Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd;
- nodi newid i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn (i egluro'r broses ar gyfer cael enwebiadau ar gyfer Ymddiriedolwyr a Enwebwyd gan Aelodau); ac
- ystyried ein hymateb i fwriad Llywodraeth y DU i ddiwygio Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol i fynd i'r afael â'r gofyniad i Weinidogion Trysorlys EM gymeradwyo unrhyw newidiadau a wneir gan y Bwrdd i gynllun pensiwn yr Aelodau.

## **3. Strategaeth**

Yn ein diweddariad diwethaf, adroddwyd bod y rhan fwyaf o'n trafodaethau ym mis Gorffennaf yn canolbwyntio ar ddatblygu ein nodau strategol ar gyfer gweddill ein cyfnod yn y swydd. Yn ein cyfarfod ym mis Medi, gwnaethom adolygu ein canfyddiadau, ac rydym

---

[2] Mae'r Cynllun yn destun dau brisiad: prisiad cyllido, sy'n gosod y gwir gyfradd gyfrannu y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei thalu i'r Cynllun; a phrisiad y terfyn uchaf ar gostau, a ddefnyddir i fonitro cost y Cynllun at y dyfodol. Rôl y Bwrdd yn y broses ar gyfer y terfyn uchaf ar gostau yw cytuno ar y rhagdybiaethau demograffig y mae'r actiwari yn eu defnyddio wrth gyflawni prisiad y terfyn uchaf ar gostau (e.e. pa mor hir y bydd aelodau'r cynllun yn byw ar ôl ymddeol/faint fydd yn gadael ym mhob etholiad ac ati).

yn bwriadu cytuno a chyhoeddi ein strategaeth derfynol yn dilyn ein cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd. Byddwn yn gwahodd adborth gan Aelodau ar gynnwys y strategaeth.

### 4. Adolygiad o gymorth COVID-19

Yn ein llythyr diweddaru diwethaf, fe'ch hysbyswyd o'n bwriad i adolygu'r darpariaethau yr oeddem wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â chymorth COVID-19 i chi a'ch staff. Fe'ch gwahoddwyd i chi rannu unrhyw faterion gyda ni erbyn dechrau mis Medi 2021 er mwyn llywio ein hadolygiad.

Yn sgil ansicrwydd parhaus ynghylch effaith y pandemig, ac oherwydd adborth gennych chi a'ch staff bod llawer ohonoch yn dal i ystyried sut mae COVID-19 yn effeithio ar eich ffyrdd o weithio, rydym wedi cytuno i barhau â'r darpariaethau presennol ar gyfer y Lwfans Gweithio Cartref; Cronfa Dychwelyd i Swyddfeydd COVID-19; ac asesiadau ar gyfer Cyfarpar Sgrin Arddangos (DSE).

**Lwfans Gweithio Gartref:** Mae'r Bwrdd wedi neilltuo cronfa i alluogi pob Aelod i dalu lwfans di-dreth i'w staff o hyd at £6 yr wythnos (neu £26 y mis ar gyfer cyflogeion a delir yn fisol) i dalu costau ychwanegol gweithio gartref heb orfod poeni am bennu'r costau gwirioneddol yr eir iddynt. Mae'r lwfans yn cael ei leihau pro rata ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan amser neu os yw staff yn absennol (e.e. ar wyliau neu absenoldeb salwch).[3]

**Cronfa Dychwelyd i Swyddfeydd Covid-19:** Mae'r Gronfa hon ar gael i ddarparu cyllid i brynu offer sy'n angenrheidiol i leihau'r risg o haint gan COVID-19 i unigolion sy'n bresennol yn eich etholaeth neu'ch swyddfa ranbarthol, yn seiliedig ar asesiad risg a gynhaliwyd gennych chi. Gall offer o'r fath gynnwys, er enghraifft, offer diheintio, masgiau wyneb a sgriniau amddiffynnol. Os bydd costau a hawlir yn fwy na chyfanswm o £500, gall yr hawliadau hyn fod yn destun proses craffu a dilysu bellach cyn y gellir eu derbyn, er mwyn sicrhau defnydd priodol o adnoddau.

**Asesiadau ar gyfer Cyfarpar Sgrin Arddangos (DSE):** Mae teclyn ar-lein ar gael er mwyn eich galluogi chi a'ch staff i gynnal asesiad gartref, gyda chostau yn ymwneud ag addasiadau yn cael eu talu o'r Lwfans Costau Swyddfa (darpariaeth Iechyd a Diogelwch) yn y lle cyntaf.

Bydd y darpariaethau hyn yn aros ar waith wrth i ni gynnal yr hyn y credwn sy'n angenrheidiol ac adolygiadau amserol o'r cymorth ar gyfer gweithio hyblyg/gartref, ac ar gyfer gofynion iechyd a diogelwch cysylltiedig. Fel Bwrdd, rydym yn ymwybodol bod y pandemig wedi taflu goleuni ar ddulliau cyflogwyr o ran y materion hyn. Rydym hefyd yn cydnabod y cymhlethdodau a all godi, yn enwedig o ran ystyriaethau iechyd a diogelwch

[3] Ni all staff sy'n derbyn y Lwfans Gweithio Gartref hwn hawlio rhyddhad treth trwy Gyllid a Thollau EM ar gostau gweithio gartref.

mewn cyd-destun covid ac nad yw'n ymwneud â covid, a phan ystyrir telerau prydlesi swyddfa. Ein nod cyffredinol yw gweithio tuag at drefniadau symlach ar gyfer cefnogi Aelodau yn y meysydd hyn, gan sicrhau ar yr un pryd bod egwyddorion pwysig gwerth am arian a rhesymoldeb yn cael eu cynnal.

Rydym yn bwriadu cychwyn ystyried yr adolygiadau hyn yn ein cyfarfod ym mis Ionawr 2022. Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein camau nesaf, yn enwedig sut y gallwch chi rannu eich barn ar y materion hyn gyda ni. Yn y cyfamser, fe'ch gwahoddir chi a'ch staff i gyflwyno unrhyw faterion pellach yn ymwneud â chymorth COVID-19 i ni erbyn 1 Tachwedd 2021 i lywio ein hystyriaeth barhaus o'r materion hyn.

### 5. Cyfarfod nesaf y Bwrdd

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar 25 Tachwedd 2021 a byddwn yn ystyried:

- Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad – cynigion ar gyfer ymgynghori *[fel rhan o'r trafodaethau hyn byddwn yn ystyried, ymhlith pethau eraill, y materion y tynnir ein sylw atynt trwy ohebiaeth a chyfarfodydd y Grŵp Cynrychiolwyr. Dylid codi unrhyw faterion y mae'r Aelodau yn dymuno i'r Bwrdd eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf erbyn 1 Tachwedd 2021.]*
- Gofynion gorfodol y Bwrdd – polisïau cyflogaeth
- Darpariaethau diogelwch – diweddaru ac adolygu
- Strategaeth y Bwrdd ar gyfer 2021-2026 – ystyried y drafft terfynol.

Wrth gloi, hoffwn nodi ddiolch ar ran y Bwrdd i Lleu Williams, cyn-Glerc y Bwrdd, am ei gyfraniad i'n gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ddymuno'n dda iddo yn ei rôl newydd fel Clerc Pwyllgor.

Byddwn yn eich diweddaru'n rheolaidd i wneud yn siŵr eich bod yn parhau i glywed am ein gwaith. Yn y cyfamser, os hoffech godi unrhyw faterion gyda mi neu'r Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu drwy Glerc newydd y Bwrdd, Llinos Madeley, drwy anfon e-bost at **taliadau@senedd.cymru**.

Yn gywir,

Elizabeth Haywood

**Dr Elizabeth Haywood**
**Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English.

**ATODIAD – Aelodaeth o Grwpiau Cynrychiolwyr y Bwrdd**

## Grŵp Cynrychiolwyr Aelodau o'r Senedd

- Darren Millar (cynrychiolydd Ceidwadwyr Cymreig)
- Rhun ap Iorwerth (cynrychiolydd Plaid Cymru)
- Vikki Howells (cynrychiolydd Llafur Cymru)
- Gwahoddwyd Jane Dodds AS i fynychu'r cyfarfodydd hyn hefyd.

## Grŵp Cynrychiolwyr Staff Cymorth yr Aelodau

- Anthony Cooper (cynrychiolydd Llafur Cymru)
- Ash Lister (cynrychiolydd Undeb Llafur)
- Claire Haliwell (Staff cymorth i Jane Dodds AS)
- Paul Smith (cynrychiolydd Ceidwadwyr Cymreig)
- Steffan Bryn (cynrychiolydd Plaid Cymru)